
OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 No. 895

**Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i
Aelodau Cyngorau Cymuned) (Cymru) 2003**

RHAN V

Trefniadau Gweinyddol

Osgoi dyblygu

12.—(1) Rhaid i hawliad am daliad drwy lwfans presenoldeb, lwfans colled ariannol, lwfansau ar gyfer mynd i gynadleddau a chyfarfodydd, lwfansau teithio a lwfansau cynhaliaeth gynnwys datganiad, neu fod datganiad yn cyd-fynd â'r hawliad, wedi'i lofnodi gan yr aelod nad yw wedi gwneud ac na fydd yn gwneud unrhyw hawliad arall mewn perthynas â'r mater y mae'r hawliad yn ymwneud ag ef.

(2) Ni wneir taliad i berson o dan unrhyw ddarpariaeth o adran 176 o Ddeddf 1972 mewn perthynas â mater y gwnaed taliad yn ei gylch i'r person hwnnw yn unol â'r Rheoliadau hyn.

(3) Ni fydd gan berson sydd, yn y cyfnod a grybwyllir yn rheoliad 5 neu reoliad 6 —

- (a) yn cyflawni dyletswydd wedi'i chymeradwyo neu ddyletswyddau wedi'u cymeradwyo fel aelod o fwy nag un corff,
- (b) yn cyflawni dwy ddyletswydd wedi'i chymeradwyo neu fwy i'r un corff, neu
- (c) â hawl i lwfans o dan adran 173 o Ddeddf 1972 ac i daliad o lwfans gymharol o dan unrhyw ddeddfiad arall,

yr hawl i daliadau o dan yr adran honno sydd yn eu cyfanswm yn fwy na'r swm a ragnodir gan reoliadau 5 neu 6 fel y bo'n briodol am y cyfnod hwnnw.

(4) Caiff corff sy'n talu lwfans o dan adran 173 o Ddeddf 1972 i berson am ddyletswydd wedi'i chymeradwyo fel y'i disgrifir ym mharagraff (3) ostwng swm y lwfans hwnnw gan swm unrhyw lwfans arall o dan adran 173 neu unrhyw lwfans cymharol o dan unrhyw ddeddfiad a delir gan gorff arall.

Cofnodion o'r lwfansau

13.—(1) Rhaid i bob awdurdod gadw cofnod o daliadau a wneir ganddo yn unol â'r Rheoliadau hyn.

(2) Rhaid i gofnod o'r fath nodi enw'r derbynnydd a swm a natur pob taliad a rhaid trefnu ei fod ar gael, ar bob adeg resymol, i'w archwilio (yn ddi-dâl) gan unrhyw etholwr llywodraeth leol (o fewn ystyr “*local government elector*” yn adran 270(1) o Ddeddf 1972) yn ardal yr awdurdod.

(3) Caiff person sydd â hawl i archwilio cofnod o dan baragraff (2) ofyn am gopi o unrhyw ran ohono ar ôl talu ffi resymol a all fod yn ofynnol gan yr awdurdod.

Status: This is the original version (as it was originally made). This item of legislation is currently only available in its original format.

Cyhoeddusrwydd

14. Cyn gynted ag y bydd yn ymarferol ar ôl diwedd blwyddyn ariannol, rhaid i bob awdurdod wneud trefniadau i gyhoeddi o fewn ardal yr awdurdod y cyfanswm a dalwyd ganddo yn y flwyddyn honno i bob aelod mewn perthynas â lwfans presenoldeb a lwfans colled ariannol.